

SGANDAL WINDRUSH



Rhwng 1948 a 1988, daeth miloedd o bobl i'r DU o Wledydd y Gymanwlad, cyn-drefedigaethau Prydeinig a gweddill y byd i ailadeiladu'r economi ar ôl yr Ail Ryfel Byd. Cawsant eu galw'n "Genhedlaeth Windrush".

Roedd nifer ohonynt yn Ddinasyddion Prydain Fawr a'r Trefedigaethau (CUKC), sef statws newydd a gyflwynwyd gan Ddeddf Cenedligrwydd Prydeinig 1948 a oedd yn rhoi hawl iddynt fyw a gweithio yn y DU fel deiliaid Prydeinig. Yn Neddf Mewnfudo 1971, crëwyd y cysyniad 'hawl preswyllo', a chafodd pobl a oedd yn meddu ar statws preswyllydd sefydlog ar 1 Ionawr 1973 – yn cynnwys pobl cenhedlaeth Windrush – ganiatâd awtomatig i aros yn y wlad am gyfnod amhenodol, heb fod angen unrhyw ddogfennau pellach arnynt.

Ym 1981, disodlwyd CUKE gan y Ddeddf Cenedligrwydd Prydeinig, a chyflwynwyd categorïau dinasyddiaeth newydd, ynghyd â gofynion cofrestru newydd. Roedd polisïau 'amgylchedd gelyniaethus' y Swyddfa Gartref, a gyflwynwyd o 2012, yn mynnu bod yn rhaid i landlordiaid, cyflogwyr a darparwyr y GIG wirio statws mewnfudo unigolion. Gan nad oedd pobl cenhedlaeth Windrush yn meddu ar ddogfennau, ystyriwyd bod hynny'n dystiolaeth eu bod yn byw'n anghyfreithlon yn y DU. O'r herwydd collodd pobl eu swyddi, eu cartrefi a'u gofal iechyd, a chawsant eu cymryd i'r ddalfa. Cafodd o leiaf 83 o unigolion a gyrhaeddodd cyn 1973 eu hallgludo'n anghyfreithlon.

Eisiau rhagor o wybodaeth?
liverpooladvocatesforwindrush.org

OEDDECH CHI'N GWYBOD?

Methodd y Swyddfa Gartref â chadw cofnodion priodol yn ymwneud â phobl cenhedlaeth Windrush, y rhoddwyd dinasyddiaeth iddynt ar ôl 1948. Yn 2010, dinistriodd y Swyddfa Gartref gardiau glanio a allai fod wedi profi bod y bobl hyn yn preswyllo'n gyfreithlon yn y wlad.

Ni roddwyd gwybod i nifer o bobl bod yn rhaid iddynt wneud cais am ddogfennau i brofi eu statws, neu ailgofrestru ar gyfer dinasyddiaeth.

Yn 2018, cydnabuwyd y camwedd gan y llywodraeth a chyflwynwyd cynllun iawndal ar gyfer y bobl dan sylw. Mae'r broses yn hynod gymhleth ac mae yna bentyrrau o achosion yn aros am sylw. O ganlyniad, cyfran fechan yn unig o bobl cenhedlaeth Windrush sydd wedi cael iawndal – llai na 6%.

PAM RYDYM ANGEN CYFRAITH HILLSBOROUGH

"Rydw i wedi cael fy siomi'n fawr; rydw i'n teimlo'n ofnadwy; dw i ddim yn deall sut y gall sefydliad sy'n ei alw'i hun yn 'Swyddfa Gartref' drin pobl fel hyn; dw i ddim yn deall sut y gall y llywodraeth drin pobl fel hyn"

Hubert Howard, un o ddioddefwyr Sgandal Windrush, The Guardian

"Roedd un dyn wedi mynychu ysgolion yn y DU, roedd wedi cofrestru gyda meddyg teulu, roedd ganddo rif Yswiriant Gwladol. Eto i gyd, dywedodd y Swyddfa Gartref nad oedd yna 'unrhyw gofnod' ohono"

Wendy Williams, Gwersi a Ddysgwyd, Adolygiad Annibynnol, 2018